Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Asesiad o Gydnerthedd Ariannol

# **Cyngor Sir Powys**

**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 196A2016

# Statws yr adroddiad

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o waith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn dweud beth yw'r drefn wrth ymdrin â cheisiadau y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Gyda golwg ar y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@audit.wales.

Y tîm a gwblhaodd y gwaith hwn oedd Colin Davies, Mike Jones, Nadeem Ashraf, Justine Morgan, Gareth W. Lewis ac Alison Lewis.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gwella'i drefniadau rheoli ariannol ac yn elwa o graffu a herio mewnol sy'n gynyddol drwyadl, ond mae'n cydnabod bod angen iddo gysoni a monitro perfformiad y gwasanaeth a'r perfformiad ariannol er mwyn iddo fod yn ffyddiog y bydd yn cyflawni ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

**Cynllunio ariannol** 6

Mae'r Cyngor yn dal i ddatblygu a mireinio'i ymagwedd tymor hir at gynllunio ariannol, gan weithio i'w hintegreiddio a'i chysoni â'i newid corfforaethol a'i gynllunio ar gyfer gwella

**Rheolaeth ariannol** 8

Er bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor ar y cyfan yn ddigonol, mae'r trefniadau ar gyfer craffu ar berfformiad y gwasanaeth a'r perfformiad ariannol ar y cyd yn dal yn llai nag effeithiol

**Llywodraethu ariannol** 11

Mae trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor sydd wrthi'n datblygu'n arwain at graffu a herio mewnol cynyddol drwyadl ar ei berfformiad wrth iddo bennu ei gyllideb ac ar ei berfformiad ariannol

Atodiadau

Prif nodweddion trefniadau rheoli ariannol da 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1. Mae trefniadau rheoli ariannol da’n hanfodol er mwyn stiwardio arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon. Mae trefniadau rheoli ariannol da:
   - yn helpu awdurdodau i wneud y penderfyniadau iawn ar gyfer y tymor byr, canol a hir;
   - yn helpu awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni dyletswyddau statudol ac anghenion cymunedau lleol;
   - yn hanfodol ar gyfer llywodraethu corfforaethol da;
   - yn ymwneud â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol gymaint ag â rheoli arian;
   - yn sylfaen ar gyfer sicrhau ansawdd gwasanaethau a'u gwella;
   - yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid ar gyfer stiwardio a defnyddio adnoddau; ac
   - yn ddisgyblaeth reoli bwysig.
2. Nid rhagweld y dyfodol yw hanfod trefniadau rheoli ariannol tymor hir; yn hytrach mae a wnelo â pharatoi ar ei gyfer. Mae angen i awdurdodau ddeall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bwlch rhwng anghenion cyllido a'r incwm posibl, a datblygu strategaethau arbed priodol.
3. Gall strategaethau tymor hir, manwl sy'n ffrwyth meddwl, a chynlluniau ariannol tymor canol sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cael eu cyflawni drwy alluogi dewisiadau ariannol priodol. I'r gwrthwyneb, mae cynllunio cyllidebau blynyddol tymor byr yn unig yn hybu ymagwedd fesul cam sy'n cael ei sbarduno gan brosesau ac fe all hyn fod yn aneffeithiol mewn cyfnod o newid allanol cyflym.
4. Llwyddir i sicrhau cydnerthedd ariannol pan fydd gan gyngor systemau a phrosesau trwyadl ar waith i reoli ei risgiau a'i gyfleoedd ariannol yn effeithiol, ac i sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog.
5. Seiliwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2015 **Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru** ar waith maes ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru. Yn sgil y gwaith hwn, a thrwy ystyried deunyddiau eraill sydd ar gael sy'n ymwneud ag agweddau ar drefniadau rheoli ariannol, rydym wedi crynhoi nifer o brif nodweddion arferion da i gynorthwyo ymarferwyr wrth iddynt ddatblygu eu trefniadau. Mae'r nodweddion hyn i'w gweld yn Atodiad 1.
6. Ac ystyried y pwysau parhaus ar ariannu, rydym wedi ystyried a oes gan y Cyngor y trefniadau priodol ar waith i gynllunio ar gyfer sicrhau a chynnal ei gydnerthedd ariannol yn y tymor canol (gan amlaf rhwng tair a phum mlynedd i'r dyfodol). Er y gall fod mwy o sicrwydd i'r Cyngor dros gylch blynyddol, mae pwysau ariannol yn cael effaith y tu hwnt i gyfnod y setliad cyfredol. Rydym wedi ystyried tystiolaeth am ymagwedd y Cyngor at reoli ei faterion ariannol yn y gorffennol diweddar ac yn y tymor canol wrth lunio ein barn am ei gydnerthedd ariannol.

7. Cynhaliwyd ein hasesiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Hydref 2015, gan ddilyn trywydd materion y tynnwyd sylw atynt yn y gwaith ar y sefyllfa ariannol yn 2014-15. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar gyflawni cynlluniau arbed 2014-15, a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16.

8. Canolbwyntiwyd ar ateb y cwestiwn a ganlyn: **A yw Cyngor Sir Powys (y Cyngor) yn rheoli gostyngiadau yn y gyllideb yn effeithiol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol?** Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn ystyried:
   - **a yw'r trefniadau cynllunio ariannol yn gymorth effeithiol i sicrhau cydnerthedd ariannol;**
   - **a yw'r rheolaeth ariannol yn gymorth effeithiol i sicrhau cydnerthedd ariannol;**
   - **a yw'r llywodraethu ariannol yn gymorth effeithiol i sicrhau cydnerthedd ariannol.**

9. Mae'r adroddiad yn sgorio'r risg ar gyfer pob agwedd: cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. Disgrifir y sgoriau a roddir ar gyfer risgiau isod.

| | |
|---|---|
| **Risg isel** | Mae'r trefniadau'n ddigonol (neu'n well) heb lawer o ddiffygion i'w gweld mewn systemau, prosesau neu wybodaeth. Gall yr effaith ar allu'r cyngor i gyflawni ei gynllun ariannol fod yn fach iawn. |
| **Risg ganolig** | Mae ychydig o ddiffygion i'w gweld mewn systemau, prosesau neu wybodaeth a allai effeithio ar allu'r cyngor i gyflawni'r hyn y mae ei gynllun ariannol yn dymuno'i gyflawni. |
| **Risg uchel** | Mae diffygion sylweddol i'w gweld mewn systemau, prosesau neu wybodaeth ac/neu mae risg wirioneddol na fydd cynllun ariannol y cyngor yn cyflawni'r hyn y mae'n dymuno'i gyflawni. |

10. Yn gyffredinol ein casgliad oedd bod **y Cyngor yn gwella'i drefniadau rheoli ariannol ac yn elwa o graffu a herio mewnol sy'n gynyddol drwyadl, ond ei fod yn cydnabod bod angen iddo gysoni a monitro perfformiad y gwasanaeth a'i berfformiad ariannol er mwyn iddo fod yn ffyddiog y bydd yn cyflawni ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo**. Casglwyd hyn ar sail ein canfyddiadau ynghylch y trefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol, a llywodraethu ariannol. Rydym yn sgorio'r risg sydd i'r Cyngor wrth iddo geisio cyflawni ei gynllun ariannol ar gyfer pob un o'r elfennau hyn fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| **Risg ganolig** | Cynllunio ariannol |
| **Risg ganolig** | Rheolaeth ariannol |
| **Risg ganolig** | Llywodraethu ariannol |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn gwella'i drefniadau rheoli ariannol ac yn elwa o graffu a herio mewnol sy'n gynyddol drwyadl, ond mae'n cydnabod bod angen iddo gysoni a monitro perfformiad y gwasanaeth a'r perfformiad ariannol er mwyn iddo fod yn ffyddiog y bydd yn cyflawni ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo.

## Cynllunio ariannol

### Mae'r Cyngor yn dal i ddatblygu a mireinio'i ymagwedd tymor hir at gynllunio ariannol, gan weithio i'w hintegreiddio a'i chysoni â'i newid corfforaethol a'i gynllunio ar gyfer gwella

**11.** Mae'r Cyngor yn dal i ddatblygu ei drefniadau cynllunio ariannol strategol, gan arddel ymagwedd tymor hwy priodol at ragweld newidiadau i'w gyllideb. Mae'n llwyddo i wneud hyn drwy ei Fodel Adnoddau Ariannol (y Model) sy'n cael ei ddiweddaru a'i 'dreiglo ymlaen' bob blwyddyn. Ym Model y Cyngor yn 2015, nodwyd y diffyg yn y gyllideb ar gyfer 2015-16 ac ar gyfer y pedair blwyddyn ariannol nesaf hyd at 31 Mawrth 2020 (Gweler Arddangosyn 1).
Drwy fynd ati fel hyn, mae'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i allu cynllunio i ymateb i'r heriau y mae'n eu hwynebu o ran y gyllideb. Er enghraifft, mae cynlluniau i drawsnewid gwasanaethau y gall fod angen mwy na blwyddyn i'w gwireddu'n cael eu hadlewyrchu'n well drwy gael gorwel cynllunio hwy fel hyn.

Arddangosyn 1: Gofynion Gostwng Costau/Effeithlonrwydd Pum Mlynedd Cyngor Sir Powys

| Blwyddyn | Gostyngiad yn y Costau/Effeithlonrwydd sy'n Ofynnol (£ miliwn) |
|---|---:|
| 2015-16 | 11.634 |
| 2016-17 | 10.073 |
| 2017-18 | 8.428 |
| 2018-19 | 8.463 |
| 2019-20 | 8.538 |
| **Cyfanswm** | **47.136** |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Powys - Model Adnoddau Ariannol Chwefror 2015

**12.** Dilynodd y Cyngor y templed gwell a ddefnyddiwyd ganddo y llynedd i baratoi cynllun arbed linell-wrth-linell ar gyfer 2015-16 sy'n nodi arbedion gwerth £12.8 miliwn. Mae'r cynllun yn rhestru pob cynnig arbed fesul cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth ac mae'n pennu'r gwerth targed i'w gyflawni.

**13.** Yn ogystal â'r Model, datblygwyd Strategaeth Ariannol Tymor Canol gynhwysfawr fel rhan o'r broses gynllunio strategol gyffredinol yn y Cyngor, ac mae hyn yn golygu bod y Cabinet yn ymrwymo i ddarparu cynllun ariannol tair blynedd cytbwys.

**14.** Ar gyfer 2015-16, datblygodd y Cyngor ei gyllideb o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan y Datganiad o Fwriad. Nod y Datganiad o Fwriad yw dwyn ynghyd mewn un man wybodaeth am y sbardunau ariannol a rheoleiddiol a'r sbardunau polisi sy'n effeithio ar y Cyngor ac sy'n helpu'r Cabinet i lunio'i hymagwedd at bennu'r gyllideb a'i amcanion gwella. Ystyriodd y Cyngor hefyd amrywiaeth o faterion gan gynnwys anghenion cymunedau a barn preswylwyr, pwysau ariannol a chwyddiant, adolygiadau perfformiad a rheoleiddio gan Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Cyflwynwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canol ochr yn ochr â'r gyllideb ar gyfer 2015-16 a Rhaglen Gyfalaf 2015-20.

**15.** Y llynedd, dywedasom fod angen i'r Cyngor fod yn glir ynghylch sut y byddai'n darparu adnoddau ar gyfer y blaenoriaethau corfforaethol a nodwyd ganddo (yn y Datganiad o Fwriad a Chynllun Powys yn Un). Hefyd, y dylai fod yn glir ynghylch sut y byddai'n sicrhau bod ei gynlluniau ariannol corfforaethol a strategol wedi'u cysoni'n ddigonol â'i gilydd. Roedd y Cyngor yn cydnabod y dylai ei gynllunio ariannol ddechrau'n gynharach ac fe ddechreuodd y gwaith cychwynnol ar gyfer cyllideb 2015-16 ym mis Mai 2014. Wrth gynllunio'r gyllideb, y nod oedd ceisio rhoi mwy o eglurdeb ynghylch proses ac amseru'r gyllideb i'r Aelodau nag y llwyddwyd i'w wneud o'r blaen.

**16.** I lywio'r penderfyniadau ynghylch cyllideb y Cyngor ar gyfer 2016-17, mae'r Tîm Cyllid wedi rhoi manylion i'r aelodau am y cynigion penodol ar gyfer arbedion er mwyn sicrhau'r gostyngiadau mewn costau sydd eu hangen, ar gyfer 2016-17, a'r ddwy flwyddyn ariannol ddilynol. Mae rhagnodi'r cynigion arbed ar gyfer cyfnod o dair blynedd yn ddatblygiad cadarnhaol, gan feithrin mwy o ymwybyddiaeth o newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol a chaniatáu amserlen hwy ar gyfer cynllunio.

**17.** Mae pob un o'r cynigion arbed wedi bod yn destun Asesiad Effaith Integredig Sengl i helpu'r Cyngor i ddeall yr effeithiau posibl, i nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u cyflawni ac i liniaru'r risgiau hynny. Mae'r Asesiad yn ystyried gweledigaeth a blaenoriaethau strategol y Cyngor, nodau Llesiant Cymru, egwyddorion datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb, y Gymraeg a rheoli risgiau. Paratoir yr Asesiadau hyn gan Benaethiaid Gwasanaethau, ac fe'u cymeradwyir gan Gyfarwyddwyr Strategol, Deiliaid Portffolio, a'u llofnodi gan y Cabinet i'w cadarnhau.

**18.** Er mwyn gwireddu ei weledigaeth, mae'r Cyngor wedi creu model gweithredu newydd a fydd yn ceisio comisiynu gwasanaethau yn y dyfodol ar sail y blaenoriaethau a ganlyn:

- ailfodelu gwasanaethau Cyngor er mwyn ymateb i'r gostyngiad yn ei ariannu;
- helpu pobl yn y gymuned i fyw bywydau llawn;
- datblygu'r economi; a
- gwella deilliannau i bob dysgwr, gan sicrhau cyn lleied o anfantais â phosibl.

**19.** Bwriad y Cabinet yw y bydd y blaenoriaethau hyn yn help i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol ac y bydd y Cyngor, er mwyn cynnal gwasanaethau, yn helpu cymunedau a dinasyddion i wneud rhagor drostynt eu hunain ac yn annog ei staff i weithio mewn ffyrdd newydd ac ysgwyddo cyfrifoldebau newydd.

**20.** I'r dyfodol, mae gweledigaeth y Cyngor 'Cymunedau Cryf yng Nghalon Werdd Cymru' yn rhagweld y Cyngor yn gweithredu ar sail costau is o lawer, yn sicrhau gwasanaethau cost-effeithiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau craidd i drigolion, busnesau a chymunedau ac yn cael eu darparu gan y darparwr mwyaf effeithiol.

**21.** Mae'r Cyngor yn sylweddoli nad yw'n gallu gostwng costau ar y raddfa sydd ei hangen drwy broses y gyllideb flynyddol sy'n gosod nod ar gyfer arbedion i wasanaethau. Mae'n datblygu proses barhaus sy'n cynnwys strategaeth glir ar gyfer gwella costau. Mae'r Cyngor yn derbyn y bydd gofyn iddo sicrhau gwell dealltwriaeth o sylfaen gostau pob gwasanaeth a datblygu model o themâu torri costau allweddol er mwyn gweithredu'n gyson ac yn gydlynol.

**22.** Mae gwaith datblygu'r strategaeth wedi dechrau o dan Raglen Datblygu Trefniadaethol y Cyngor - Gwella Costau. Amcan y strategaeth gwella costau yw:

- nodi'r bwlch ariannol rhwng y galw a'r arian sydd ar gael;
- nodi dulliau ychwanegol ar draws y cyngor sy'n helpu gwasanaethau i wella'u costau;
- llunio rhaglen gwella costau gyffredinol a helpu rhanddeiliaid i flaenoriaethu ac ymrwymo;
- darparu prosesau trwyadl i reoli buddion a deall a rheoli costau; a
- herio er mwyn sicrhau bod buddion yn cael eu cyflawni mewn ffordd drwyadl a dibynadwy a dilyn trywydd y llwyddiant hwnnw.

**23.** Wrth adolygu'r trefniadau a oedd ar waith a'u gweithredu ar gyfer Cyllideb 2015-16, gwelwyd bod cynlluniau ariannol strategol y Cyngor a'i gynlluniau newid a gwella corfforaethol yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'i gilydd a bod y naill yn dylanwadu ar y llall. Dylai bwriad y Cyngor yn y dyfodol a'r gwaith sydd ganddo ar y gweill a ddisgrifiwyd uchod arwain at integreiddio a chysoni llawnach ar ei drefniadau cynllunio strategol, gan gryfhau gallu'r Cyngor i gamu ymlaen at wireddu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau y mae wedi'u datgan.

**24.** Yn ddiweddar, cyfunodd y Cyngor y Portffolio Cyllid a'r Portffolio Perfformiad i'w helpu i hwyluso integreiddio a chysoni cynllunio strategol. I gryfhau'r craffu ariannol eto, yn ei flaenraglenni gwaith, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys craffu ar y cysylltiadau rhwng y gyllideb arfaethedig, y Strategaeth Ariannol Tymor Canol, y Datganiad o Fwriad a Chynllun Powys yn Un. Bwriedir i'r cynllun hwn helpu i sicrhau bod yr adnoddau ariannol ar waith i wireddu nodau'r Cyngor.

# Rheolaeth ariannol

## Er bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor ar y cyfan yn ddigonol, mae'r trefniadau ar gyfer craffu ar berfformiad y gwasanaeth a'r perfformiad ariannol ar y cyd yn dal yn llai nag effeithiol

**25.** Ym mis Gorffennaf 2014, symudodd y Tîm Cyllid at fodel partneru busnes gan ymateb i'r gostyngiad yn nifer y staff a'r angen i wneud prosesau'n fwy effeithlon. Yn dilyn ymweliad â Chanolfan Ragoriaeth Cyllid y BBC yng Nghaerdydd mae'r Tîm Cyllid yn bwriadu defnyddio model partneru busnes y Ganolfan gan ddatblygu adolygiadau o systemau main. Mae'r tîm eisoes wedi cwtogi'r amser rhwng y cau misol ac adrodd ar y gyllideb i 13 diwrnod drwy gwblhau adolygiad systemau main. Mae'r Partneriaid Busnes Cyllid yn helpu deiliaid cyllidebau, Penaethiaid Gwasanaethau a Chyfarwyddwyr Strategol ar bob mater ariannol gan gynnig cyngor a chanllawiau a'u herio. Mae gan bob deilydd cyllideb gyllidebau penodol i'w rheoli a'u cadw o dan reolaeth. Mae gan bob canolfan gostau un rheolwr penodol, a hwnnw wedi'i bennu gan y Cyfarwyddwr Strategol, y Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

**26.** Serch hynny, mae problemau capasiti yn yr Adran Gyllid. Mae ailstrwythuro mawr wedi digwydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae'r Adran Gyllid wedi gweld gostyngiad o oddeutu 20 y cant yn nifer ei staff. Mae hyn wedi effeithio ar gapasiti'r tîm. Mae rhai swyddi gweigion yno o hyd ond mae'r Cyngor wedi'i chael yn anodd recriwtio i bob swydd ac eithrio i swyddi cyfrifyddion iau.

**27.** Mae gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer rheoli ei faterion ariannol. Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yn rhoi canllawiau manwl am wahanol agweddau'r broses gan gynnwys dirprwyo trefniadau rheoli ariannol. At hynny, mae nifer o gyfarwyddiadau/llawlyfrau ar gael sy'n gefn i'r fframwaith hwn ac yn nodi'r prosesau a'r camau manwl y mae gofyn eu dilyn.

**28.** Mae trefniadau monitro cyllidebau'r Cyngor yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr. Bydd cyllidebau'n cael eu monitro o leiaf unwaith y mis fel rhan o weithdrefnau diwedd y mis a bydd deiliaid cyllidebau'n gallu cael gafael ar wybodaeth ariannol unrhyw bryd drwy gyfrwng y Partneriaid Busnes Cyllid. Bydd rheolwyr cyllidebau'n adrodd yn rheolaidd i'w rheolwyr llinell am unrhyw amrywiadau sylweddol i'r cyllidebau a gymeradwywyd.

**29.** Bydd adroddiad am y sefyllfa ariannol yn cael ei gyflwyno bob mis ar draws y Cyngor ar bob lefel. Bydd y Cabinet a Gweithgor Ariannol a Pherfformiad (y Pwyllgor Archwilio) yn awr yn cael adroddiad misol mwy cynhwysfawr (Golwg Gyffredinol ar y Sefyllfa Ariannol a'r Rhagolygon a baratoir gan Ddeiliaid y Portffolio Cyllid). Mae'r adroddiad yn diweddaru'r rhagolwg ar gyfer alldro pob maes gwasanaeth (ar gyfer cyllidebau refeniw a chyfalaf); yn cofnodi lefel sicrhau'r arbedion/ effeithlonrwydd a dargedwyd fesul gwasanaeth; gan dynnu sylw at yr alldro a gyllidebwyd ac a ragwelwyd, ac mae'n nodi'r effaith bosibl ar sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn.

**30.** Ni ddarperir adroddiad am y data ariannol a data am berfformiad gyda'i gilydd yn y fformat adrodd newydd hwn. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod hyn yn wendid ac mae'n bwriadu sefydlu Uned Gwybodaeth Fusnes gyda'r nod o sicrhau gwell cysylltiad rhwng data am gyllid a data am berfformiad. Mae'r dull hwn yn cael ei dreialu ar hyn o

bryd wrth ymdrin â gwybodaeth am Wasanaethau Plant. Yn y cyfamser, bydd y Gweithgor Ariannol a Pherfformiad yn cael gwybodaeth chwarterol am berfformiad gwasanaethau ac yn ei hadolygu ochr yn ochr â'r Golwg Gyffredinol ar y Sefyllfa Ariannol a'r Rhagolygon. Serch hynny, wrth adrodd am ei gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2105, roedd y Gweithgor yn poeni bod y data am berfformiad a ddarperid yn annigonol a bod cael gafael ar wybodaeth yn broses rhy araf o hyd. Adroddodd y Grŵp hefyd, er bod craffu wedi gwneud cyfraniad drwy herio'r Cynlluniau Gwella Gwasanaethau sy'n datblygu, ei fod yn dal i feddwl bod targedau'n annigonol o glir neu berthnasol. Gofynnodd y Grŵp i Grŵp Llywio'r Cyd-gadeiryddion ystyried eto'r trefniadau craffu ar berfformiad.

**31.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, amrywiol fu hanes y Cyngor wrth gyflawni ei gyllideb yn gyffredinol. Gwelwyd tanwariant ar y gyllideb yn 2011-12 ac yn 2012-13. Gwelwyd gorwariant o £0.8 miliwn ar y gyllideb yn 2013-14, a defnyddiodd y Cyngor ei gronfeydd wrth gefn i gau'r bwlch.

**32.** Ar gyfer 2014-15, cymeradwywyd cyllideb refeniw o £242.4 miliwn ar gyfer y Cyngor ac adroddwyd mai'r gwariant oedd £249.7 miliwn. Ariannwyd y gwahaniaeth, sef £7.3 miliwn , drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn penodol a rhai wedi'u neilltuo. Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn fel hyn yn drefn sydd wedi'i chymeradwyo, naill ai drwy gynllunio ar ei gyfer wrth bennu cyllidebau neu drwy drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn, ac mae'n cynnwys taliadau diswyddo gwirfoddol. Ar ôl cynnwys trosglwyddiadau cymeradwy o'r cronfeydd wrth gefn, yn yr adroddiad am berfformiad y gwasanaeth o'i gymharu â'r gyllideb, gwelwyd bod tanwariant o £2.0 miliwn (ac eithrio cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion a'r Cyfrif Refeniw Tai). Mae'r ffigur tanwario hwn yn cynnwys £1.7 miliwn o gyfalafu arian refeniw ar ddiwedd y flwyddyn. Achubodd y Cyngor ar y cyfle i gyfalafu gwariant refeniw ym meysydd Priffyrdd, Trafnidiaeth a Gwastraff er mwyn lleihau'r effaith ar refeniw fel arbediad untro. Cyn cyfalafu, y tanwariant oedd £282,000 ar ôl eithrio cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion a'r Cyfrif Refeniw Tai. Defnyddiodd y Cyngor y cyfle a gododd yn sgil gwella'i sefyllfa refeniw, yn enwedig y cyfalafu ychwanegol, i drosglwyddo'r arian hwn i gronfa wrth gefn benodol i liniaru pwysau posibl yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**33.** Ar gyfer 2015-16, cyfarfu'r Cabinet ym mis Ionawr 2016 i ystyried y Golwg Ariannol Gyffredinol a'r Rhagolygon ar 30 Tachwedd 2015. Roedd yr adroddiad hwn yn rhagweld amcanestyniad lle y byddai gorwariant o £3.7 miliwn ar y gyllideb refeniw erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n amcanestyniad o 2.2 y cant o orwario ar gyllideb gymeradwy'r Cyngor. Mae'r amcanestyniad hwn yn cynnwys arbedion sydd wedi'u sicrhau. Nid yw'r amcanestyniad ond yn adlewyrchu arbedion pan fydd y rheini'n cael eu cyflawni'n unig er mwyn sicrhau tryloywder, osgoi problemau diwedd-blwyddyn a dangos yn glir unrhyw feysydd gwasanaeth sydd heb eto sicrhau'r arbedion a gynlluniwyd. O blith yr arbedion refeniw o £12.8 miliwn y cytunwyd arnynt fel rhan o gyllideb 2015-16, llwyddwyd i sicrhau £6.9 miliwn (53.8 y cant) yn ystod wyth mis cyntaf y flwyddyn. Mae £5.9 miliwn o arbedion i'w cyflawni eto, a bwriedir cyflawni 87 y cant o'r rheini yn ystod y pedwerydd chwarter.

**34.** Mae Deilydd y Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 yn ei gwneud yn glir yn yr adroddiad bod angen i Gyfarwyddiaethau sicrhau bod yr arbedion yn cael eu cyflawni. Mae hyn er mwyn tafoli'r gyllideb a sicrhau nad yw'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu

gwagio y tu hwnt i'r lefel a gynlluniwyd. Serch hynny, mae lefel uchel yr arbedion y bwriedir eu cyflawni yn y pedwerydd chwarter yn risg bosibl oherwydd, oni ellir gwireddu'r arbedion a gynlluniwyd, bydd amser yn brin i ddatblygu a rhoi cynlluniau arbed eraill ar waith. Mae'r Cyngor yn cydnabod y risg hon ac, yn ddiweddar, mae wedi cyhoeddi cynllun ariannol tair blynedd cytbwys gyda'r nod o'i helpu i wella'r ffordd mae'n cynllunio arbedion yn y dyfodol.

**35.** Llwyddodd y Cyngor i sicrhau 80 y cant o'r arbedion a nodwyd ganddo ar gyfer 2014-15 (gan sicrhau £14.02 miliwn o arbedion o gyfanswm gofynnol o £17.58 miliwn). Dygwyd y £3.56 miliwn o arbedion oedd heb eu sicrhau ymlaen i'w cyflawni yn y flwyddyn gyfredol. O blith y rhain, dyrannwyd £1.14 miliwn i feysydd gwasanaeth penodol. O blith y £2.42 miliwn a oedd yn weddill, roedd £2.16 miliwn (89 y cant) wedi'u cyflawni erbyn 30 Tachwedd 2015.

**36.** Llwyddodd y Cyngor i wella'i ddull o fonitro'r arbedion a gyflawnwyd yn 2014-15 drwy gofnodi'r hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â'r targedau arbed ar sail 'llinell wrth linell'. Bydd dull manwl i olrhain arbedion (sydd â statws RAG) yn cael ei ddiweddaru gan y gwasanaethau bob mis a bydd y cynnydd yn cael ei adolygu a'i herio gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a deilydd y portffolio perthnasol yn y Cabinet. Mae Bwrdd Incwm wedi'i sefydlu hefyd i adolygu a herio'r cynnydd a wneir wrth gynhyrchu incwm. Mae hyn yn cynnwys y Swyddog Adran 151 a Deilydd y Portffolio Cyllid a Pherfformiad.

**37.** Mae'r Cyngor hefyd wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer rheoli cronfeydd wrth gefn. Yn ddiweddar, mae wedi mabwysiadu polisi cronfeydd wrth gefn[1] gan sefydlu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch y cronfeydd hyn. Mae pob cronfa wrth gefn bellach yn un gorfforaethol ac eithrio cronfeydd ysgolion a chronfeydd y Cyfrif Refeniw Tai sydd wedi'u neilltuo. Cymeradwyir defnyddio cronfeydd wrth gefn drwy gyfrwng proses y gyllideb a rheolau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn. Cyflwynir adroddiadau am gronfeydd wrth gefn bob mis yn adroddiad monitro'r gyllideb. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sy'n cael eu cadw, gan gynnwys balansau agor, a gwybodaeth am ddefnyddio'r cronfeydd cadw - rhai sydd wedi'u cyllidebu a'r rhai a ragwelir. Clustnodir rhai cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol gan ddiffinio'n glir sut y caiff y rhain eu defnyddio a chyflwynir adroddiadau ynghylch hynny.

**38.** Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau cymaint o incwm ag y bo modd ac i wireddu polisi'r Cyngor o adfer ei gostau'n llawn fel y nodir yn Natganiad o Fwriad 2014-17. Yn ddiweddar, cymeradwyodd y cabinet Bolisi Rheoli Incwm ac Adfer Costau Gwasanaethau, ac mae'r Cyngor wedi pennu targed i gynhyrchu incwm ychwanegol o £1.5 miliwn ym mlynyddoedd y dyfodol. Mae'r Gofrestr Taliadau yn ei fabandod ac mae targedau cychwynnol wedi'u gosod ar gyfer cynhyrchu incwm ychwanegol o 2016-17 ymlaen. Mae prosiect y Cyngor, gyda chefnogaeth yn y lle cyntaf gan PwC, i edrych ar gynhyrchu incwm/codi taliadau ac adfer costau wedi codi proffil cynhyrchu incwm fel ymateb Cyngor cyfan i'r her ariannol. Mae'r prosiect hwn wedi nodi nifer o gyfleoedd, ac mae'r Cyngor wedi gweithredu ar rai o'r rhain. Er enghraifft, gyda golwg ar daliadau am briffyrdd a gwasanaethau mynwentydd. Ym mis Tachwedd 2015, cynyddodd y Cyngor ei Ffioedd Mynwentydd 65 y cant gan eu symud o'r chwartel isaf yng Nghymru i'r chwarter uchaf. Mae'r Cyngor yn sylweddoli na fydd cynyddu ffioedd fel hyn ond yn sicrhau'r

[1] Adroddiad Cyngor Sir Powys i'r Cabinet, 11 Rhagfyr 2015 - Polisi Cronfeydd wrth Gefn

arbedion/adfer y costau a dargedwyd os bydd y galw am ei wasanaethau'n parhau ar y lefelau presennol, ac y bydd angen monitro'r galw'n barhaus.

# Llywodraethu ariannol

## Mae trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor sydd wrthi'n datblygu'n arwain at graffu a herio mewnol cynyddol drwyadl ar ei berfformiad wrth iddo bennu ei gyllideb ac ar ei berfformiad ariannol.

Mae'r Cyngor wedi camu ymlaen gyda'r gwaith a ddechreuwyd y llynedd gyda'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus i gryfhau cydnerthedd ariannol drwy graffu. Mae'r gwaith hwn wedi sefydlu Panel arbennig i Graffu ar Gyllid (corff annibynnol nad yw'n cynnwys Aelodau'r Cabinet). Mae cyfres o seminarau dysgu wedi'u cynnal ar gyfer y Cabinet, Craffu a'r Uwch Dîm Rheoli drwy ddefnyddio darparwyr allanol ac mae'r Cyngor wedi datblygu rhaglen ar gyfer gwaith craffu. Cymerodd y Panel Craffu ar Gyllid ran mewn cyfres o weithdai ariannol; adolygodd brif ddogfennau'r Cyngor; a chynhaliodd gyfweliadau ag Aelodau'r Cabinet, aelodau'r Uwch Dîm Rheoli, Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau (Swyddog A151) a'r Prif Weithredwr. Wedyn, cyhoeddodd y Panel adroddiad a oedd yn cynnwys wyth argymhelliad ar gyfer gwella yn y maes hwn.

**39.** Er mwyn ei helpu i gyflawni'r argymhellion, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Strategaeth Ariannol Tymor Canol tair blynedd. Mae wedi cynnal gweithdy i Benaethiaid Gwasanaethau i gytuno ar ddull diwygiedig o fonitro arbedion, ac mae wedi adolygu'r broses cynllunio corfforaethol i ystyried sut y gellir ei hintegreiddio fwy â chyllid. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnwys cynllunio cyfalaf yn y cylch cynllunio cyllidebol er mwyn i'r refeniw, y cyfalaf a chronfeydd cadw gael eu hystyried yn un, wedi adolygu ei broses adrodd am risgiau ac wedi ailfformatio Rhaglen Waith y Cabinet.

**40.** Mae'r Cyngor wedi mynd ati'n frwd i gryfhau'r rhan y mae Aelodau'n ei chwarae ym mhroses y gyllideb. Mae wedi cynnal cyfres o seminarau cyllideb gyda Chynghorwyr yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd y seminarau i esbonio'r Model Adnoddau Ariannol sydd wedi'i ddiweddaru i'r aelodau ac i gyflwyno'r arbedion arfaethedig sydd wedi'u paratoi gan bob maes gwasanaeth. Y nod oedd llywio cynigion cyffredinol ar gyfer pennu'r gyllideb tair blynedd a chael arweiniad gan yr aelodau am gyfeiriad polisïau er mwyn i'r cynigion gael eu troi'n gynlluniau gweithredu cytunedig. Yn ei adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2015, roedd y Panel Craffu ar Gyllid yn cydnabod bod proses gosod y gyllideb ym Mhowys yn esblygu. Er bod y Panel yn croesawu gweld Aelodau'n cymryd rhan yn gynharach ac mewn ffordd fwy manwl, dywedodd ei fod yn poeni braidd bod gormod o doriadau tameidiog o hyd yn hytrach na newid trawsnewidiol ac nad oes sicrwydd y gellir cyflawni rhai o'r cynigion arbed.

**41.** Yn y cyfnod hwn o gyni, mae'n hanfodol i'r Cyngor sicrhau bod ei gynigion arbed yn destun craffu a herio. Rhaid iddo gael arfarniad gwrthrychol o ba mor ymarferol yw eu cyflawni, ac o'u heffaith bosibl ar ansawdd y gwasanaeth a chyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

**42.** Bydd y craffu a'r herio'n digwydd yn fewnol yn ystod gwahanol gamau gan swyddogion a grwpiau o aelodau o'r timau rheoli gwasanaethau i'r Cabinet. Mae'n rôl allweddol i'r Panel Craffu ar Gyllid yn benodol. O ran cynigion arbed ar gyfer cyllideb 2016-17, penderfynodd y Panel y byddai'n cyflwyno cyfres o gwestiynau i bob Pennaeth Gwasanaeth. Gofynnwyd iddynt pa mor ffyddiog yr oeddent ynghylch eu gallu i sicrhau arbedion, y cynlluniau a'r prosesau sydd ar waith i'w gwireddu, a'u heffaith ar eu gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt nodi effaith arbedion gwasanaethau eraill ar eu cynigion. Dechreuodd y Panel ar y gwaith hwn drwy gyfarfod â Phenaethiaid Gwasanaethau a Deiliaid Portffolio Gofal Cymdeithasol Oedolion a Gwasanaethau Plant ym mis Tachwedd 2015 i drafod eu hymatebion. Ar ôl adolygu cofnodion y cyfarfod hwnnw, ein casgliad yw bod y gwaith wedi'i gyflawni'n drwyadl ac i bob golwg bod y materion hynny lle y nodwyd bod angen camau gweithredu'n briodol. Mae'r Panel yn paratoi adroddiad am ganfyddiadau eu gwaith i'r Cabinet cyn pennu'r gyllideb ar gyfer 2016-17.

**43.** Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd modd datblygu'r cynigion arbed, a chraffu a herio'n briodol arnynt yn fewnol. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod, mewn ambell achos, y bydd angen capasiti ac arbenigedd ychwanegol i'w helpu i leihau ei gostau gweithredu.

**44.** Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2015, penderfynodd y Cyngor gomisiynu KPMG i'w helpu i ddatblygu model cyflawni ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn y dyfodol ac i leihau ei gostau gweithredu £3.5 miliwn dros dair blynedd. Bydd adolygiad mewnol yn ystyried y cynllun, y strwythur a'r gweithrediadau sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau corfforaethol i gyngor sy'n mynd drwy gyfnod o newid, a bydd yn arwain at fodel gweithredu newydd drwyddo draw. Bydd KPMG yn cynghori'r cyngor yn y broses hon. Mae'r Cyngor wedi comisiynu PwC i ddarparu capasiti ac arbenigedd allanol tebyg gyda golwg ar ailfodelu Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

**45.** Mewn cydgyfarfod diweddar â'r Cabinet (1 Rhagfyr 2015) cyflwynodd y Panel Craffu ar Gyllid adroddiad a oedd yn cynnwys nifer o sylwadau ac awgrymiadau i'r Cabinet eu hystyried ynghylch sut y gellid gwella eto broses pennu'r gyllideb. Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, gan adeiladu ar y cymorth gan yr arbenigwyr allanol, wedi galluogi sicrhau nifer o fuddion cadarnhaol er bod rhai trefniadau'n amlwg yn dal i ddatblygu a heb fwrw gwreiddiau eto.

**46.** O dan amgylchiadau lle mae'r amserlenni'n gyfyng, mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod trefniadau atebolrwydd priodol ar waith. Yn ddiweddar, fe gyhoeddwyd adroddiad am ein **Harolwg o Osod Contract Gofal Cartref i Alpha Care Limited**[2]. Mae'n mynegi ein barn bod y Cyngor, yn ei frys i gyflwyno'r gwasanaeth gofal cartref newydd mor gyflym, wedi peryglu dilysrwydd ei drefniadau llywodraethu sefydledig.
Yn sgil hyn, gadawyd y Cyngor a defnyddwyr y gwasanaeth gofal cartref yn agored i risg ddiangen.

**47.** Er mwyn ymateb i her trawsnewid darparu gwasanaethau ar adeg pan fo adnoddau'n prinhau a'r galw'n cynyddu, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gomisiynu a chaffael sydd wedi'i diffinio'n glir. Yn ein hadroddiad am osod y contract gofal cartref,

[2]Swyddfa Archwilio Cymru, **Review of the Letting of a Domiciliary Care Contract to Alpha Care Limited**, Ionawr 2016 (ar wefan Cyngor Sir Powys)

argymhellwyd y dylai'r Cyngor ystyried a oes arwyddocâd ehangach i'r materion yr ydym wedi'u nodi o ran cyflawni ei strategaeth gomisiynu a chaffael yn llwyddiannus. Mae'n argymell hefyd y dylai'r Cyngor adolygu ei brosesau ar gyfer datblygu a gosod contractau mawr. Rydym yn pwysleisio bod angen sicrhau bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu ymarferion contractio, craffu arnynt a'u cymeradwyo'n briodol ac yn gweithio.

# Atodiad 1

## Prif nodweddion trefniadau rheoli ariannol da

| Prif nodweddion cynllunio ariannol da |
| --- |
| Mae cyllideb y cyngor yn cael ei phennu yng nghyd-destun strategaeth ariannol tymor hwy a chynllun ariannol tymor canol ac iddo orwel rhwng tair a phum mlynedd. |
| Mae'r cyngor wedi nodi'n glir yr arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud dros gyfnod o dair i bum mlynedd. Mae cynlluniau costio a chyflawni manwl yn sylfaen i'r cynllun arbed ar gyfer arbedion unigol (gan gynnwys arbedion trawsnewid/newid). |
| Mae gan y cyngor hanes da o gyflawni ei gynlluniau arbed. |
| Mae'r cynllunio ariannol tymor canol a'r cyllidebu blynyddol yn adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau strategol y cyngor ar gyfer y flwyddyn, ac yn y tymor hwy. |
| Mae tybiaethau ynghylch chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau darparu gwasanaethau wedi'u modelu a'u seilio ar ragamcanion rhesymol. |
| Mae'r cyngor yn deall ffynonellau ei incwm a'r risgiau sy'n codi yn eu sgil, ac mae wedi adolygu ei ymagwedd at ffioedd a thaliadau er mwyn sicrhau ei fod yn cael gwerth am arian. |
| Mae prosesau cynllunio ariannol a chorfforaethol wedi'u hintegreiddio, yn cysylltu â threfniadau rheoli risgiau, ac yn cynnwys cynllunio strategol ar gyfer adnoddau eraill, gan gynnwys y rhaglen gyfalaf a chynllunio'r gweithlu. |
| Mae'r cyngor yn defnyddio modelu ariannol i asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol a'r arbedion sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, ac i'w helpu i sicrhau nad yw atebion tymor byr yn cael eu cyflawni ar draul cynaliadwyedd tymor hir. |
| Mae'r Cyngor yn modelu sbardunau gwariant allweddol (er enghraifft, newidiadau yn y boblogaeth a'r galw am wasanaethau), ffynonellau incwm (er enghraifft rhagolygon ar gyfer incwm a grantiau gan y llywodraeth), canlyniadau gofynion a balansau cyfalaf ac adnoddau. |
| Mae'r cyngor yn gweithredu o fewn lefel o gronfeydd wrth gefn a balansau (gan gynnwys cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo a balans y gronfa gyffredinol), a'r rhain wedi'u cymeradwyo gan yr aelodau ac yn briodol ar gyfer y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y mae'n eu hwynebu. |
| Os nad yw'r cyngor yn llwyddo i gyrraedd ei lefel darged ar gyfer balansau, mae camau wedi'u cynllunio i gywiro'r sefyllfa, gan ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig i'r sefydliad o ran ei sefyllfa ariannol a chyflawni ei flaenoriaethau. |

| Prif nodweddion rheolaeth ariannol dda |
| --- |
| Mae gan y cyngor bolisi rheoli cyllidebau priodol ac effeithiol sy'n nodi'n glir rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd. Mae'r cynllun dirprwyo'n glir, a phrosesau wedi'u pennu i reoli tanwario a gorwario ar y gyllideb. |
| Mae'r monitro a'r rhagolygon ariannol yn addas at y diben ac wedi'u seilio ar groniadau. Mae hyn yn help i sicrhau cysylltiad clir rhwng y gyllideb, rhagolygon yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. |
| Mae'r cyngor yn dadansoddi ac yn allosod tueddiadau perthnasol, gan ystyried eu heffaith ar amcanestyniad yr alldro terfynol. |
| Mae'r cyngor yn gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael ag unrhyw bwysau ar y gyllideb, er enghraifft, drwy gymryd camau cywir i reoli amrywiadau anffafriol neu drwy ailystyried blaenoriaethau corfforaethol. |
| Mae gan y cyngor hanes da'n ddiweddar o weithredu o fewn ei gyllideb heb orwario'n sylweddol. |
| Mae gan y cyngor bolisi clir y cytunwyd arno ynghylch defnyddio'i gronfeydd wrth gefn. Pennwyd isafswm clir a hwnnw wedi'i gyfiawnhau ar gyfer balans wrth gefn y 'gronfa gyffredinol'. Mae rhesymwaith clir i esbonio trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn neu ryngddynt. Mae protocolau clir yn esbonio sut a pham y dylid defnyddio pob cronfa wrth gefn. Mae penderfyniadau ynghylch cronfeydd wrth gefn wedi'u seilio ar asesu'r risg a'r perfformiad cyfredol mewn ffordd gynhwysfawr. |
| Mae'r aelodau wedi cytuno ar y polisi cronfeydd wrth gefn ac mae'n destun craffu. |
| Mae gan y cyngor bolisi clir ar gynhyrchu incwm/codi taliadau. Mae cofrestr taliadau ar gael ar draws ei wasanaethau er mwyn helpu i reoli taliadau'n gyson. Mae gan y cyngor ganllawiau corfforaethol ar gyfer sut y dylid rhoi consesiynau ar waith. Mae taliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'r polisi'n cael ei ddiweddaru. |
| Mae'r cyngor yn monitro'i gymarebau ariannol pwysig, yn eu meincnodi o'u cymharu â chyrff tebyg ac yn cymryd camau fel sy'n briodol. |
| Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol yn adlewyrchu'r cyngor yn gywir. |

| Prif nodweddion llywodraethu ariannol da |
| --- |
| Mae'r tîm arwain yn amlwg yn deall yr heriau a'r risgiau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad o ran trefniadau rheoli ariannol, a'r rheini'n newid yn gyflym , ac mae'n cymryd camau priodol i sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog. |
| Mae gan y cyngor ddigon o gapasiti a gallu i hybu a sicrhau trefniadau rheoli ariannol da. |
| Mae'r tîm arwain yn meithrin amgylchedd lle mae dealltwriaeth dda ynghylch tybiaethau a pherfformiad ariannol a'r rheini'n cael eu herio'n rheolaidd. Gwelir diwylliant o dryloywder ynghylch y sefyllfa ariannol. |
| Mae'r tîm arwain yn craffu ar faterion ariannol ac yn eu herio'n adeiladol er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n parhau'n gadarn ac yn addas at y diben. |
| Cyflwynir adroddiadau rheolaidd a thryloyw i'r aelodau. Mae'r adroddiadau'n cynnwys cynllunio ar gyfer gweithredu a dadansoddi amrywiadau. |
| Mae'r aelodau'n craffu ar y perfformiad ariannol ac yn ei herio'n effeithiol, gan ddal y swyddogion yn atebol. |
| Ymdrinnir ag argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol yn effeithiol ac yn ddi-oed. |
| Gwelir ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid ynghylch materion sy'n ymwneud â'r gyllideb, gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru